# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1 - Adran D

## Cwestiynau ysgrifenedig y Cynulliad a gyflwynwyd ar

## 1 Gorffennaf i'w hateb erbyn 7 Gorffennaf 1999

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** Pa ymgynghori blaenorol a fu rhwng yr Awdurdod Radio a'r Swyddfa Gymreig mewn perthynas â phenderfyniad diweddar yr Awdurdod i leihau'r gofynion am raglenni lleol ar gyfer Red Dragon Radio a Touch Radio yng Nghaerdydd. (OAQ444JS)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** A yw'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi ymgynghori â'r Swyddfa Gymreig yngln â dyfodol Darlledu Sain Digidol yng Nghymru. (WAQ445JS)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa fesurau y mae'n eu cynnig i hybu mynediad i amgueddfeydd ac orielau yng Nghymru. (WAQ458VB)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddo i ddatblygu'r berthynas rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a Chanolfan Ewropeaidd Cymru. (WAQ459VB)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A fydd yn trefnu ymchwiliad i effaith ffioedd hyfforddi yng Nghymru. (OAQ462VB)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynrychioliadau y mae wedi'u derbyn mewn perthynas â ffioedd hyfforddi.

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drefniadau sydd wedi'u pennu i osod tendrau am gelfi ac offer yn adeilad newydd arfaethedig y Cynulliad ym Mae Caerdydd.

(WAQ464VB)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa arian newydd o’r sector cyhoeddus a ddarperir gan y Trysorlys at ddibenion cyllid cyfatebol yr UE yng Nghymru. (WAQ456VB)

Gofyn i’r Ysgrifennydd Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Geraint Davies (Rhondda);** Pa gynlluniau sydd ganddi mewn perthynas â chyllido symud yr Uned Seiciatryddol o safle Ysbyty Dwyrain Morgannwg i Ysbyty newydd ‘Royal Glamorgan’. (WAQ443VB)

**Rod Richards (Gogledd Cymru);** A fydd yn nodi’n fanwl y rhesymau dros beidio ag ystyried cynigion Kerrington Plc ym 1997 a J Franklin Engineering ym 1997 a 1998 o safbwynt gwerthu Ysbyty Meddwl Dinbych. (WAQ449VB)

**Rod Richards (Gogledd Cymru);** A fydd yn rhoi manylion yr holl ymholiadau a chynigion a wnaethpwyd yn ystod gwerthiant Ysbyty Meddwl Dinbych. (WAQ448VB)

**Rod Richards (Gogledd Cymru);** A oes cynlluniau ganddi i gynnal ymchwiliad i werthiant Ysbyty Meddwl Dinbych. (WAQ447VB)

**Rod Richards (Gogledd Cymru);** A oes cynlluniau ganddi i atal safle Ysbyty Meddwl Dinbych ar gyrion Dinbych rhag adfeilio. (WAQ446VB)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynrychiolaethau y mae hi wedi eu derbyn mewn perthynas â llau pen mewn ysgolion yng Nghymru, a pha gamau mae hi’n bwriadu eu cymryd o ganlyniad. (WAQ454VB)

Gofyn i’r Ysgrifennydd Cynulliad dros Gynllunio a’r Amgylchedd

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa safleoedd parcio a theithio sy’n derbyn cymorth gan y Setliad Grant Trafnidiaeth ar gyfer eleni. (WAQ451VB)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa welliannau rheilffyrdd sy’n derbyn cymorth gan y Setliad Grant Trafnidiaeth ar gyfer eleni. (WAQ452VB)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A fydd yn ymchwilio i ddarparu cludiant rhad ac am ddim ar y rheilffyrdd ac ar y bysys i bensiynwyr yng Nghymru. (WAQ460VB)

Gofyn i’r Ysgrifennydd Cynulliad dros Addysg cyn 16 oed

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau y mae hi am eu cynnig mewn perthynas â’r bwriad i gau ysgolion pentref yn Sir Benfro. (WAQ450VB)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw hi wedi derbyn cynrychioliadau yngln â’r bwriad i gau Ysgol Feithrin Doc Penfro. (WAQ555VB)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gymwysterau sy’n cael eu hystyried yn rhai hanfodol ar gyfer staff sy’n addysgu plant rhwng tair a phedair blwydd oed. (WAQ457 VB)

Gofyn i’r Ysgrifennydd Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pryd mae hi’n bwriadu gwneud datganiad ar (I) gwaharddiad ar dyfu cnydau; (ii) ecsbloetio cnydau yng Nghymru a addaswyd yn enetig; (iii) labelu bwydydd a addaswyd yn enetig yng Nghymru, yn unol â pholisi’r Cynulliad a enghreifftiwyd yn y bleidlais ar y ddadl fer ar GMOs ar 29 Mehefin 1999. (WAQ453VB)

Gofyn i’r Ysgrifennydd Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth fydd effaith economaidd diddymu siopa di-doll o fewn yr UE ar Gymru ac yn benodol ar Faes Awyr Cymru Caerdydd, Abergwaun a Chaergybi. (WAQ466VB)